


Defnyddio OneNote i greu portffolio o dystiolaeth


ECAD6008

Creu nodiadur OneNote newydd


Mewngofnodwch i OneDrive y Brifysgol. Yn y fwydlen ar y top, dewiswch 'OneNote'.



Cliciwch '+New' a dewiswch 'Blank Workbook'




Rhowch deitl i'r gweithlyfr ('workbook') yn y fformat Rhif Myfyriwr Eich Enw ECAD6008. Yna cliciwch 'Create'



Os gofynnir i chi rhoi enw i'r adran ('section name'), gallwch ddefnyddio'r cod modiwl yma.

Dylunio eich OneNote

Ar dop y dudalen gyntaf, rhwch iddo'r teitl 'Overview'. Yna gallwch ddefnyddio'r ddolen +Page ar waelod y dudalen i greu pum tudalen ychwanegol. Un yr un ar gyfer eich dewis egwyddorion, un ar gyfer eich adfyfyriad beirniadol ac un ar gyfer eich cyfeiriadau. Ychwanegwch deitlau'r tudalennau drwy eu hychwanegu ar y top, uwchben y dyddiad.






Defnyddio OneNote

Naill ai gallwch olygu eich OneNote ar-lein, neu ei agor yn yr App OneNote drwy glicio ar y ddolen 'Open in App' ar dop y sgrîn. Mae'r cipluniau isod oddi ar fersiwn y we, ond mae swyddogaeth debyg yn bodoli ym mhob un o'r fersiynau Ap, Cyfrifiadur Personol, Mac, iOS ac Android.

Cliciwch ar y dudalen i ychwanegu eich cynnwys.

Yn ogystal ag ychwanegu testun, gallwch ddefnyddio'r fwydlen 'Insert' i ychwanegu ffotograffau o dystiolaeth. Gallwch ddefnyddio 'Inset File - Insert File Printout' i ychwanegu llun o ffeil rydych wedi'i greu (er enghraifft, cynllun gwers). Gallwch ddefnyddio'r fwydlen 'Draw' i ychwanegu anodiadau.





Caiff diweddariadau eu cadw yn awtomatig.


Er ei fod yn bosibl ychwanegu fideo a sain i OneNote, gofynnwn i chi beidio â gwneud hyn ar gyfer yr aseiniad hwn, gan y byddwch yn cyflwyno fersiwn PDF.

Fe welwch eich OneNote eto yn eich OneDrive, drwy edrych yn eich ffolder 'Notebooks', neu drwy agor OneNote ac edrych ar eich ffeiliau diweddar.


Paratoi at gyflwyno eich OneNote

Cliciwch ar y fwydlen 'Share' yn y gornel dde ar dop y sgrîn


Cliciwch ar y bocs 'Anyone with the link can edit', a dad-gliciwch y bocs 'Allow editing'. Cliciwch 'Apply'



Cliciwch ar 'Copy Link' i greu dolen i rannu eich gwaith.




Pastiwch y ddolen hon ar eich tudalen Trosolwg ('Overview')




Pan fyddwch yn barod i gyflwyno'r gwaith, mae angen i chi greu PDF o'r nodiadur cyfan. I wneud hyn bydd angen i chi agor y nodiadur mewn ap PC. Ar hyn o bryd, nid yw hyn ar gael ar fersiwn Mac y feddalwedd, neu ar y fersiwn ar-lein.


Gallwch wneud hyn drwy glicio ar 'Open in App' ar dop y sgrîn.



Unwaith y bydd y Nodiadur ar agor yn y fersiwn Ap, dewiswch 'File', yna Export> Notebook> PDF a chliciwch 'Export'.



Dewiswch le addas i gadw eich ffeil, a chliciwch 'Save'



Agorwch y ffeil i wneud yn siŵr bod eich Portffolio cyfan wedi'i gadw ar ffurf PDF. Yna, cyflwynwch y ffeil trwy Turnitin yn ôl y drefn arferol.